

Cais Cynllunio EN010007 (Pŵer Niwclear Horizon – Cynllun Wylfa Newydd)

Nodwn i ddechrau y ffaith ddiymwad fod cwmni Horizon yn cydnabod yn ei Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg Adroddiad Interim (Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau, 2016) y byddai datblygu cynllun Wylfa Newydd yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg fel iaith gymunedol. Mae sawl cyfeiriad yn yr adroddiad at yr effaith niweidiol, e.e.

6.10 Disgwylir y bydd...effaith niweidiol yn gyffredinol ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Er y cydnabyddir y byddai'r cynnydd mewn poblogaeth (mewnfudo gan weithwyr) yn un dros dro, sef drwy'r cam adeiladu, mae hyd y cam adeiladu yn yr achos hwn yn hirfaith a gallai gostyngiad yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg arwain at effeithiau niweidiol hirdymor, ond rhoddir mesurau llinaru ar waith.

6.18 Er y cydnabyddir mai dros dro y byddai gweithwyr nad ydynt yn rhai lleol yn mewnfudo, o ystyried hyd y cam adeiladu, mae mesurau llinaru yn hanfodol i sicrhau nad oes gostyngiad sylweddol hirdymor yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg.

6.136 Ystyrir mai mewnfudiad gweithwyr sy'n symud i brif ardal yr astudiaeth economaidd-gymdeithasol yn ystod y cam adeiladu yw'r prif ffactor a fyddai'n dylanwadu ar ddiwylliant a thraddodiadau Cymreig. Dim ond am gyfnod dros dro y byddai'r gweithwyr na ydynt yn rhai lleol yn byw yn y KSA, er y derbynnir fod y cam adeiladu yn ymestyn am hyd at ddeng mlynedd.

6.137 Mae gan y mewnlifiad o bron i 8,000 o weithwyr sy'n symud i'r ardal, y tybir y bydd cyfran sylweddol ohonynt yn ddi-Gymraeg, botensial i wanbau diwylliant a thraddodiadau Cymreig sy'n bodoli eisoes ym mhrif ardal yr astudiaeth economaidd-gymdeithasol. Mae lefel yr effaith, i raddau, yn dibynnu ar agweddau'r gweithwyr nad ydynt yn rhai lleol tuag at yr iaith Gymraeg, diwylliant a thraddodiadau Cymreig a hefyd agwedd trigolion lleol Cymraeg eu hiaith tuag at y gweithwyr nad ydynt yn rhai lleol a'u parodrwydd i'w hannog a'u cynorthwyo i integreiddio'n ddiwylliannol ac ieithyddol. Mae angen mesurau llinaru effeithiol felly i leihau maint yr effaith ar ddiwylliant a thraddodiadau Cymreig.

6.138 Cydnabyddir mai rhwydweithiau cymdeithasol a diwylliannol yw sail diwylliant a thraddodiadau Cymreig, megis cysylltiadau teuluol, ieuencid lleol a grwpiau gweithgaredd sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai gwanbau rhwydweithiau cymdeithasol a diwylliannol o'r fath drwy fewnfudo gan bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg ac allfudo posibl gan siaradwyr Cymraeg (yn enwedig yn yr LAI) yn cael effaith niweidiol ar barhad traddodiadau Cymreig yn yr ardal leol.

Mae'r paragraffau uchod yn cydnabod y byddai'r niwed tymor-byr i'r Gymraeg yn niwed tymor-hir hefyd oni byddai mesurau llinaru yn cael eu gweithredu. Felly, mae'r adroddiad yn datgan y byddai'r datblygiad arfaethedig yn peri niwed parhaol i'r Gymraeg pe na byddai'r mesurau llinaru yn profi'n effeithiol.

Ystyriwn yma ystyr y gair 'lliniaru'. Mae'n golygu lleddfu neu esmwytháu. Hynny yw, nid yw'n golygu atal niwed, dadwneud niwed nac adfer sefyllfa wreiddiol. Mae nodi'r angen am fesurau llinaru yn rhagdybio niwed. Ystyr 'mesurau llinaru' yn yr adroddiad yw mesurau i geisio lleihau'r effaith niweidiol. Mae'r gair 'lleihau' ym mrawddeg olaf paragraff 6.137 uchod yn cadarnhau hyn: 'Mae angen mesurau llinaru effeithiol felly i leihau maint yr effaith...'

Cyfeirir yn yr adroddiad at fewnlifiad o 8,000 yn ystod y gwaith adeiladu ac y byddai eu hangen am gyfnod o ddeng mlynedd o leiaf (mae un datganiad gan Horizon yn nodi y bydd y nifer rhwng 8,000 ac 11,000, a datganiad arall yn nodi y bydd hyd at 9,000 pan fyddai'r gwaith adeiladu yn ei anterth.) Wrth gwrs, nifer y gweithwyr yn unig a nodir, felly byddai cynnwys eu teuluoedd yn gwneud y ffigwr yn llawer iawn uwch. Ac ystyried maint poblogaeth ddi-Gymraeg bresennol Môn a graddfa mewnlifiad y gorffennol, byddai'n gynnydd ychwanegol sylweddol iawn.

Mae'n amlwg yn ôl yr ystadegau nad yw'r Gymraeg yn ddigon cadarn ym Môn i allu ymdopi gyda'r fath fewnlifiad di-Gymraeg newydd yn ychwanegol at y boblogaeth ddi-Gymraeg bresennol. O ystyried ystadegau Cyfrifiad 2011 mewn perthynas â'r Gymraeg ym Môn, gwelir pa mor fregus yw ei sefyllfa. Mae poblogaeth Môn oddeutu 70,200, gyda 57% (oddeutu 40,000) yn medru siarad y Gymraeg. Mae hynny'n golygu bod 43% (oddeutu 30,200) yn ddi-Gymraeg. O ganlyniad i fewnlifiad y gweithwyr yn unig (hynny yw, heb deuluoedd), byddai cynnydd o oddeutu traean yn y boblogaeth ddi-Gymraeg – cynnydd eithriadol o sylweddol. Un canlyniad amlwg fyddai peri i ganran y siaradwyr Cymraeg ostwng yn sylweddol, a byddai'n debygol o ostwng o dan 50% a'u troi'n lleiafrif ym Môn.

Mae'r adroddiad yn rhagdybio'n ddi-sail y byddai modd cymhathu'n ieithyddol y mewnlifiad a ddeuai yn sgil y datblygiad arfaethedig. Byddai'r mesurau lliniaru a gynigir yn gwbl annigonol ac ystyried yr hyn yr honnir y gellid ei gyflawni. Mesurau lliniaru arwynebol, cosmetig ydynt, ac ni fyddent yn ddim ond cefnogaeth i fesurau – yn bolisiau a phrosiectau – sydd eisoes ar waith ac sy'n amlwg yn gyfyngedig eu heffaith o ran ymateb i'r her enfawr bresennol.

Yng nghyd-destun cymhathu'r oedolion, honnir y gellid llwyddo i gyflawni hynny trwy iddynt ddod yn aelodau o grwpiau gwirfoddol lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng:

6.146 Byddai'r cyfleoedd cyflogaeth ar gynnig yn ystod y cyfnod adeiladu yn cyfrannu tuag at gadw pobl leol, gan gyfrannu tuag at sicrhau bod y bobl hynny sy'n weithgar mewn grwpiau gwirfoddol yn gallu parhau i chwarae rhan ynddynt, gan ddiogelu dyfodol grwpiau o'r fath, gan olygu effaith fanteisiol. Byddai mynychu grwpiau fel hyn yn darparu cyfleoedd i weithwyr nad ydynt yn rhai lleol ddysgu a gwella'u gwybodaeth am ddiwylliant a thraddodiadau Cymreig a'r iaith Gymraeg. Byddai hyn o fudd er mwyn integreiddio gweithwyr sy'n symud i mewn i fywyd y gymuned; byddai cyflwyno nifer fawr o bobl ddi-Gymraeg i grwpiau o'r fath yn gallu lleihau'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y grwpiau hynny, a fyddai'n niweidiol o ran yr iaith Gymraeg.

Mae paragraff 6.146 uchod yn anwybyddu realiti sefyllfa'r Gymraeg ym Môn yn ogystal â dangos diffyg dealltwriaeth o gymdeithaseg iaith. Heb iddynt ddysgu'r Gymraeg yn gyntaf, byddai presenoldeb hyd yn oed nifer fach o'r di-Gymraeg mewn sefyllfaoedd o'r fath yn niweidio sefyllfa'r Gymraeg. Mae cymdeithaseg iaith yn dangos bod cynnal iaith yn ddibynol ar warchod, cryfhau a chynyddu peuoedd a sefyllfaoedd cwbl Gymraeg, gyda'r cyd-destunau cymdeithasol y rhai pwysicaf.

O ran cymhathu oedolion di-Gymraeg, gwyddom mai llai na mil o'r holl oedolion sy'n cofrestru i ddysgu'r Gymraeg drwy Gymru bob blwyddyn sy'n dod yn siaradwyr rhugl. Dengys y ffigyrau swyddogol am y flwyddyn 2012 mai 2% yn unig o oedolion (16+) y boblogaeth ddi-Gymraeg ym Môn a gofrestrodd ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion. Gellir rhagdybio bod y nifer a ddaethai'n rhugl yn llawer iawn llai.

Felly, mae'n amlwg nad yw sefyllfa'r Gymraeg ym Môn yn gymunedol ac yn gyfundrefnol yn ddigon cryf i gymhathu'r boblogaeth ddi-Gymraeg bresennol heb sôn am gymhathu mewnlifiad sylweddol ychwanegol.

Yng nghyd-destun cymhathu plant a phobl ifanc o aelwydydd di-Gymraeg, honnir y gellid llwyddo i'w cymhathu trwy'r gyfundrefn addysg a gweithgarwch mentrau cymunedol:

6.112 Canfyddir fod effaith gyffredinol y cam adeiladu ar ysgolion lleol yn niweidiol gan y byddai cyflwyno plant di-Gymraeg o oedran ysgol i ysgolion cyfrwng-Cymraeg lleol yn newid cydbwysedd y plant Cymraeg/di-Gymraeg a gallai hyn arwain at ostyngiad yn y defnydd o'r iaith Gymraeg. Yn ogystal, mae diffyg capasiti mewn canolfannau trochi presennol i ddarparu lle ar gyfer nifer gynyddol o ddisgyblion di-Gymraeg. Mae hyn cyn gweithredu mesurau lliniaru a gwella.

6.113 Mae mesurau yn eu lle ar hyn o bryd i alluogi ac annog plant oedran ysgol i ddysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd, megis y Siarter iaith Gymraeg yn ogystal â chefnogaeth i rieni gan gynnwys prosiectau a ddatblygwyd gan y Mentrau iaith a'r canolfannau iaith Gymraeg lleol. Mae mesurau o'r fath, gan gynnwys y canolfannau trochi iaith yn cael eu hystyried yn hanfodol i leihau'r effaith niweidiol o gyflwyno plant oedran ysgol di-Gymraeg i ysgolion lleol o ganlyniad i'r cam adeiladu. Mae cyfleoedd i blant oedran ysgol ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gymuned, allan o awyrgylch yr ystafell ddosbarth, hefyd yn cael eu hystyried yn bwysig o ran cynorthwyo'r broses o drosglwyddo iaith.

Mae paragraff 6.112 uchod yn cydnabod yr effaith niweidiol ar y Gymraeg, ond mae paragraff 6.113 yn honni y byddai'r mesurau sydd ar waith ar hyn o bryd (gyda chymorth ychwanegol gan Horizon) yn ddigon o gynhaliath i gymhathu plant di-Gymraeg. Er gwaethaf ymdrechion clodwiw athrawon, nid yw'r gynhaliath gyfannol yn ddigon cryf i gymhathu'n ieithyddol blant yr aelwydydd di-Gymraeg presennol, heb sôn am geisio cymhathu mewnllifiad sylweddol ychwanegol. Mae sefyllfa'r Gymraeg fel iaith gymunedol mor fregus fel ei bod yn frwydr hyd yn oed i gynnal y Gymraeg fel iaith gyntaf plant a phobl ifanc o aelwydydd Cymraeg.

Mae Deilliant 3 yng Nghynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg 2014-2017 (Llywodraeth Cymru) yn nodi targed o gynyddu'r canran o ddisgyblion 14-16 oed sy'n astudio 5 pwnc neu fwy i 35% a'r canran o ddisgyblion sy'n astudio 2 bwnc neu fwy trwy'r Gymraeg i 65%. Does dim tystiolaeth fod Cyngor Sir Ynys Môn wedi llwyddo i gyrraedd y targedau yma, felly rhaid casglu fod disgyblion Môn yn gadael ysgol ar hyn o bryd yn ddiffygiol o ran eu hyder a'u gallu i gyfathrebu ac i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad yw'r strwythurau mewn lle i sicrhau bod pob plentyn yn gadael yr ysgol yn hyderus eu Cymraeg, pa obaith sydd i gymhathu a throsglwyddo'r Gymraeg i ddisgyblion a fydd yn ymgartrefu ar yr ynys yn sgil datblygiad Wylfa Newydd?

Mae'r mesurau lliniaru a gynigir gan Horizon yn gwbl afrealistig ac ystyried effaith y mewnllifiad sydd mewn golwg. Yng nghyd-destun diogelu ac adfer iaith, mae'n rhaid wrth ddadansoddiad hollgynhwysfawr gonest o'r sefyllfa er mwyn cydnabod a deall y grymsterau a'r tueddiadau sydd ar waith. Mae hwn yn faes arbenigol, ac yn ymwneud â'r broses amlweddol y cyfeirir ati gan gymdeithasegwyr iaith fel 'cyfnewid iaith' neu 'sifft iaith', a dylai'r adroddiad fod wedi ystyried tystiolaeth o astudiaethau cymharol yn y maes i egluro'r sefyllfa bresennol a chanlyniad y mewnllifiad a ragwelir. O gydnabod y byddai'r mewnllifiad yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg, dylid bod wedi ystyried y sefyllfa yng nghyd-destun yr hyn a adnabyddir fel 'gwrthdroi cyfnewid iaith' (cyf. 'RLS' Fishman). O wneud hynny, byddai awduron yr adroddiad wedi sylweddoli na fyddai'r mesurau lliniaru a gynigir ganddynt yn gallu bod yn effeithiol.

I grynhoi, rydym o'r farn fod yr adroddiad yn gwbl gamarweiniol ac yn llawn rhagdybiaethau di-sail. Nid yw'n dangos dealltwriaeth o'r ffactorau a'r tueddiadau sy'n effeithio ar sefyllfa'r Gymraeg, ac mae'n amlwg nad yw awduron yr adroddiad yn sylweddoli pa mor fregus yw sefyllfa'r Gymraeg fel

iaith gymunedol ym Môn. Ni fyddai modd i'r mesurau lliniaru a gynigir leihau'r effaith niweidiol ar y Gymraeg.

Rhaid derbyn fel ffaith ddiymwad y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg yn y tymor-byr a'r tymor-hir. Nid yw sefyllfa'r Gymraeg yn gymunedol ac yn gyfundrefnol ym Môn wedi bod yn ddigon cadarn yn y gorffennol i gymhathu'r boblogaeth ddi-Gymraeg na'r mewnlifiad, ac adlewyrchir hynny'n gwbl glir yn ffigyrau iaith y Cyfrifiad dros ddegawdau lawer.

Byddai'r mewnlifiad ychwanegol o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig yn gwaethygu sefyllfa'r Gymraeg, yn gwrthweithio a thanseilio'r ymdrechion presennol a gwneud y dasg yn amhosibl. Byddai'n tanseilio strategaethau iaith Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru. Pris datblygu Cynllun Wylfa Newydd fydd niweidio sefylla'r Gymraeg a phrysuru'i thranc.

Ar sail yr effaith andwyol y byddai cynllun Wylfa Newydd yn ei chael ar y Gymraeg, rydym o'r farn na ddylid rhoi caniatâd cynllunio i Horizon wneud gwaith paratoadol ar y safle.

Yn gywir,

[REDACTED] (Ysgrifennydd, Cylch yr Iaith)
[REDACTED] (Prif Weithredwr, Dyfodol i'r Iaith)
[REDACTED] (Rheolwr, Canolfan Hanes Uwchgwyrfai)
[REDACTED] (Pwyllgor Rhanbarth Gwynedd/Môn Cymdeithas yr Iaith Gymraeg)

ar ran Pwyllgor Ymgyrch Tai a Chynllunio Gwynedd a Môn

[REDACTED]